# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021

Amser: 08.47 - 12.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11077) yn: http://senedd.tv/cy/11077

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Mike Hedges AS<br>Vikki Howells AS<br>Helen Mary Jones AS |
| Tystion: | Scott Pearson, Cludiant Casnewydd<br>John Burch, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr<br>Jane Reakes-Davies, First Cymru<br>Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru<br>Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth<br>Sioned Evans, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Robert Lloyd-Williams (Dirprwy Glerc)<br>Andrew Minnis (Ymchwilydd)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS

1.2 Dirprwyodd Mike Hedges AS ar ran Joyce Watson AS

1.3 Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan

## 2 Cymorth a chyllid i weithredwyr bysiau

2.1 Atebodd Scott Pearson, Cadeirydd Cymdeithas Coetsus a Bysiau Cymru; Jane Reakes-Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr First Cymru Buses Ltd; a John Burch, Rheolwr Cymru a Gorllewin Lloegr, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

2.2 Cytunodd John Burch i gyflwyno rhagor o fanylion am yr addasiadau rhwng nifer y teithwyr y cyllidwyd ar eu cyfer a'r niferoedd gwirioneddol ledled yr ardal dan sylw.

## 3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion - Cymorth Busnes Covid-19

3.1 Atebodd Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru; Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth; Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau; Duncan Hamer, Prif Swyddog Gweithredu Busnes a'r Rhanbarthau; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Economaidd, gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

3.2 Cytunodd Ken Skates AS i anfon copi o'r tabl sy'n cael ei lunio i gymharu'r cymorth busnes a gynigir yng Nghymru â'r cymorth a gynigir yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig gan y pwyllgor.

## 5 Preifat

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn.